

## THOMAS, DAVID (1813 - 1894), gweinidog Annibynnol ac esboniwr Beiblaidd

**Enw:** David Thomas  
**Dyddiad geni:** 1813  
**Dyddiad marw:** 1894  
**Plentyн:** Rees Uriah Thomas  
**Rhiant:** William Thomas  
**Rhyw:** Gwryw  
**Galwedigaeth:** gweinidog Annibynnol ac esboniwr Beiblaidd  
**Maes gweithgaredd:** Crefydd; Llenyddiaeth ac Ysgrifennu  
**Awdur:** John Dyfnallt Owen

Ganwyd yn ymyl Dinbych-y-pysgod, Sir Benfro, mab William Thomas, gweinidog Annibynnol. Wedi gorffen ei ysgol bu mewn galwedigaeth fasnach ac yn athro ysgol a gwasnaethu eglwysi'r cylch fel pregethwr ar y Sul. Cafodd gwrs disglaир yng Ngholeg Newport Pagnell. Ordeiniwyd ef yn weinidog yn yr eglwys Annibynnol yn Chesham yn 1841, symudodd i Stockwell, Llundain, yn 1844, a gweinidogaethodd yno hyd 1877, pryd yr ymddeolodd. Cafodd weinidogaeth hynod o eithriadol yn Stockwell; tynnal ei bregethau esboniadol gynulleidfaedd mawr, a daeth yn esboniwr Beiblaidd mwyaf poblogaidd ei gyfnod. Ei brif weithiau oedd: *A Biblical Liturgy*, 1856; *Augustine Hymn Book*, 1866; yn cynnwys rhai o'i emynau ei hun; *The Crisis of Being*, 1849; *Homiletic Commentary on St. Mathew*, 1864; *Homiletic Commentary on the Acts*, 1870; *Problemati Mundi*, 1878. Cyhoeddwyd ei holl weithiau yn naw o gyfrolau, 1882-9. Ei brif gyfraniad i lenyddiaeth Feiblaidd oedd *The Homilist*, 50 o gyfrolau. Bu farw 30 Rhagfyr 1894 yn Ramsgate. Mab iddo oedd REES URIAH THOMAS (1839 - 1901), a fu'n cadeirydd y 'Congregational Union' yn 1895 (*Congl. Year Book*, 1902).

### Awdur

Y Parchedig John Dyfnallt Owen, (1873 - 1956)

### Ffynonellau

*The Congregational Year Book*, 1896  
*Oxford Dictionary of National Biography*  
*The Times*, 1 Ionawr 1895  
H. Blackwell, [NLW MS 9274A: A Dictionary of Welsh Biography](#)

### Dolenni Ychwanegol

VIAF: [90638503](#)

Wikidata: [Q5240346](#)

**Dyddiad cyhoeddi:** 1953

**Hawlfraint Erthygl:** <http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/>



Owen, J. D., (1953). THOMAS, DAVID (1813 - 1894), gweinidog Annibynnol ac esboniwr Beiblaidd. Y Bywgraffiadur Cymreig. Adferwyd 18 Tac 2024, o <https://bywgraffiadur.cymru/article/c-THOM-DAV-1813>

Clipboard

Preifatrwydd a Chwclis  
Hawlfraint  
Y Prosiect  
Cymorth  
Cysylltu

LLGC  
NLW

LLYFRGEL  
THE NATION



Nodder gan  
Iwerddon Cymru  
Sponsored by  
Welsh Government